
# System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2020



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, y mae pob un ohonynt yn endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Prif negeseuon 4

Ffeithiau allweddol 7

Argymhellion 9

## Prif Adroddiad 11

1 Strategaeth a chontractio 11

2 Cyflwyno a chostau 19

3 Rheoli'r rhaglen 41

## Atodiadau 51

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 52

2 Gweithredu WCCIS: rolau a chyfrifoldebau 54

# Prif negeseuon

1 Bwriad System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yw galluogi staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio un system a chofnod electronig a rennir. Mae WCCIS yn cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio ar draws ystod eang o wasanaethau i oedolion a phlant, gan symud o sefyllfa o systemau lluosog ar wahanol gamau datblygu neu gofnodion papur. Bwriad Llywodraeth Cymru erioed oedd i bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r saith bwrdd iechyd weithredu WCCIS drwy gontract a lofnodwyd ym mis Mawrth 2015.

2 Mae'r rhaglen waith i weithredu a chyflwyno WCCIS a gwireddu ei manteision yn gymhleth ac yn uchelgeisiol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau amrywiol gydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, gan weithio o fewn fframweithiau atebolrwydd gwahanol. Gyda'i gilydd mae angen iddynt gytuno ar flaenoriaethau a rheoli risgiau a rhyngddibyniaethau fel rhan o ddatblygu polisi ehangach ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Yr ydym wedi archwilio'r sefyllfa ddiweddaraf. Mae **Atodiad 1** yn disgrifio ein hymagwedd a'n dulliau archwilio.

**Mae gweithredu a chyflwyno WCCIS yn cymryd llawer mwy o amser ac yn profi'n fwy costus na'r disgwyl. Er gwaethaf ymdrechion i gyflymu'r broses, mae'r rhagolygon ar gyfer defnydd llawn a gwireddu manteision yn parhau i fod yn ansicr. Mae dal angen datrys yn llawn rhai materion pwysig sy'n ymwneud â gweithrediad y system, safonau data ac adrodd ar fanteision.**

3 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd system TG ar ei phen ei hun yn cyflawni'r newidiadau i iechyd a gofal cymdeithasol y mae am eu gweld. Fodd bynnag, WCCIS yw'r galluogwr digidol allweddol. Drwy gontract WCCIS, gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd gytuno ar 'orchmynion defnyddio' gyda'r cyflenwr heb fod angen eu proses gaffael eu hunain. Bu angen i'r fframwaith contractio esblygu ers 2015 i annog y cyflenwr i'w ddarparu a chyrff i fanteisio arno.

4 Gwnaed amcangyfrif cychwynnol y gallai pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd fod yn defnyddio'r system erbyn diwedd 2018, er nad oedd ymrwymiad i'r amserlenni. Rhagwelwyd y byddai'r cynlluniau manwl yn cael eu cwblhau mewn trafodaethau â'r cyflenwr a'r sefydliadau sy'n cyfranogi.

5 Ar 31 Awst 2020, roedd 19 o sefydliadau'n defnyddio WCCIS neu wedi llofnodi gorchmynion defnyddio, gyda phedwar mewn trafodaethau gweithredol a chwech eto i ymrwymo. O'r 19 sefydliad, roedd 13 awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd wedi mynd yn fyw. Fodd bynnag, gall 'byw' olygu pethau gwahanol. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae sefydliadau'n dewis defnyddio WCCIS yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer gweithio integredig ac yn codi materion eraill ynghylch gwerth am arian.

6 Mae agweddau allweddol ar y gweithrediad disgwyliedig wedi'u gohirio'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys rhai gwelliannau i'r gofynion cytundebol gwreiddiol. Yr amcangyfrif cyfredol yw y bydd gweddill y diweddariadau'n cael eu cyflwyno fesul cam hyd at ddiwedd 2021. Mae meysydd lle mae angen gwaith o hyd yn cynnwys gofynion y Gymraeg, ei ddefnydd gyda chyfarpar symudol a rhyngwynebau â systemau eraill GIG Cymru. Mae angen i Dîm y Rhaglen Genedlaethol hefyd fynd i'r afael â phryderon am berfformiad y system.

7 Mae gweithredu a chyflwyno'r system yn fwy costus na'r disgwyl a chyda buddsoddiad ychwanegol yn angenrheidiol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau cysylltiedig. Hyd yma, mae ychydig dros £30 miliwn wedi'i wario neu wedi'i ymrwymo hyd at fis Mawrth 2022 gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Mae costau cyfalaf pellach yn bosibl, er y gallai'r rhain gael eu hysgwyddo gan sefydliadau sy'n ei ddefnyddio.

8 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i amcangyfrif cyffredinol dibynadwy o gostau gweithredu lleol a dalwyd o gyllidebau sefydliadau eu hunain, er ei bod yn amlwg bod y rhain yn mynd i filiynau o bunnoedd. Unwaith y mae sefydliadau wedi mynd yn fyw, maent hefyd yn talu taliadau gwasanaeth parhaus, er bod WCCIS yn y rhan fwyaf o achosion wedi disodli systemau rhagflaenol a'u costau cysylltiedig. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi pwysleisio mai'r sefydliadau lleol sy'n atebol am gostau, risg a manteision lleol manwl.

9 Drwy drefniadau rheoli'r rhaglen genedlaethol, cymerwyd camau ar wahanol adegau i adolygu a cheisio cyflymu'r broses gyflawni. Fodd bynnag, mae rhai materion allweddol wedi cymryd amser hir i'w datrys neu heb gael eu datrys yn llawn eto. Bwriad newidiadau diweddar i strwythurau llywodraethu rhaglenni yw cefnogi dull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig, gan gynnwys cyflymu safonau data cenedlaethol sy'n allweddol i wireddu rhai o fanteision WCCIS. Mae'r gwaith ar safonau data wedi cyrraedd gwahanol gamau ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth. Deallwn fod defnyddio WCCIS i gefnogi ymateb COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn ac wedi dangos bod hyn yn bosibl os rhoddir digon o ffocws iddo.

10 Mae'r cyfrifoldeb am weithredu WCCIS yn eang ac mae'n cynnwys sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r contract. Gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio'r system. Nid yw wedi dewis gwneud hynny eto ac ar hyn o bryd mae'n dibynnu ar gyflymu'r nifer sy'n manteisio arno drwy gyllid ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o gymorth ariannol i awdurdodau lleol ond nid oes ganddi bwerau tebyg i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio'r system.

11 Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd ar fanteision cyflwyno WCCIS wedi bod yn destun trafod ac adolygu o'r cychwyn cyntaf. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu fframwaith adrodd addas.

**Mae manteision posibl cofnod electronig a rennir ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn hollol glir; hyd yn oed yn fwy felly o ystyried rhai o'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer WCCIS yn dal i fod ymhell o gael ei gwireddu. Mae angen iddi weithio gyda'r gwahanol sefydliadau dan sylw bellach i ystyried y disgwyliadau ar gyfer gweddill tymor y contract a'r adnoddau a'r ymrwymiad ehangach sydd eu hangen i gefnogi cynnydd.**



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Ffeithiau allweddol

## Cyflwyno hyd 31 Awst 2020

| | Byrddau Iechyd | Awdurdodau Lleol |
|---|---|---|
| Yn fyw | 2 | 13 |
| Gorchymyn defnyddio wedi'i lofnodi – ddim yn fyw eto | 2 | 2 |
| Heb lofnodi gorchymyn defnyddio | 3 | 7 |

**Cliciwch yma i gael mynediad at ein hadnodd data rhyngweithiol** sy'n rhoi rhagor o fanylion am y sefyllfa o gyflwyno ar draws pob un o'r 29 sefydliad.

## Costau cymorth canolog hyd at fis Mawrth 2022: gwirioneddol/ wedi'i ymrwymo

**£30.16 miliwn**

**£8.41 miliwn**
costau cyfalaf ar gyfer datblygu meddalwedd, trwyddedau, caledwedd a seilwaith rhwydwaith

**£8.62 miliwn**
cymorth cenedlaethol i reoli'r rhaglen

**£13.13 miliwn**
cymorth i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu a chyflwyno a thrawsnewid gwasanaethau cysylltiedig

[Heb gynnwys costau gweithredu lleol a thaliadau gwasanaeth a delir o gyllidebau'r sefydliadau eu hunain a chostau cyfle ehangach sy'n gysylltiedig â'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer gweithredu a chyflwyno WCCIS.]

# Darpariaeth bosibl ar gyfer meysydd gwasanaeth (gydag enghreifftiau)



**Gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, plant a theuluoedd**

- Diogelu ac amddiffyn oedolion
- Maethu a mabwysiadu




**Gwasanaethau ariannol gofal cymdeithasol**

- Taliadau uniongyrchol
- Asesiadau ariannol
- Taliadau gofal maeth



**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

- Ymyrraeth gynnar ac atal
- Gwasanaeth anabledd dysgu



**Gwasanaethau cymunedol i blant**

- Nyrsio ysgolion
- Dechrau'n Deg ac ymweliadau iechyd Teuluoedd yn Gyntaf



**Iechyd meddwl oedolion a phobl hŷn**

- Seicoleg
- Cymorth gyda meddyginiaeth ar bresgripsiwn
- Anafiadau a gafwyd i'r ymennydd



**Cymuned (arall)**

- Nyrsio ardal
- Ffisiotherapi
- Rheoli pwysau oedolion

# Argymhellion

Er bod materion pwysig i’w datrys o hyd – gan gynnwys materion yn ymwneud â’r ffordd mae’n gweithio, safonau data ac adrodd ar fanteision – nid ydym yn gwneud argymhellion penodol yn y meysydd hyn. Maent i gyd yn destun gwaith parhaus drwy drefniadau rheoli’r rhaglen yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae’r argymhellion yr ydym wedi’u gwneud yn berthnasol o safbwynt cyffredinol cyflawni’r rhaglen. Hefyd, mae rhai o’r argymhellion ehangach yn ein hadroddiad ym mis Ionawr 2018 ar systemau gwybodeg yn GIG Cymru yn parhau i fod yn berthnasol i weithrediad WCCIS.

## Argymhellion

A1 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn ymrwymo unrhyw gyllid canolog pellach, yn gweithio gyda Thîm Rhaglen Genedlaethol WCCIS, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a’r cyflenwr i:

- lunio achos busnes wedi’i ddiweddaru sy’n ystyried costau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac sy’n nodi disgwyliadau ar gyfer cyflwyno’r system ymhellach, ei defnyddio dros weddill tymor y contract, datblygu safonau data cenedlaethol a chynllunio ar gyfer unrhyw drefniadau olynol;
- sicrhau bod gan y sefydliadau dan sylw’r gallu angenrheidiol i gefnogi gweithredu a’u bod yn rhoi digon o flaenoriaeth i’r rhaglen o fewn cynllun y cytunwyd arno’n glir; a
- dwyn ynghyd ddarlun cenedlaethol clir ar adborth gan ddefnyddwyr rheng flaen am berfformiad ac ymarferoldeb cyffredinol y system.

## Argymhellion

A2 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thîm y Rhaglen Genedlaethol i ystyried:

- sut y gellid bod wedi cryfhau contract WCCIS i gefnogi a chymell y broses o gyflawni a rheoli risg; a
- sut y gellir cymhwyso gwersi perthnasol i unrhyw drefniadau contractio olynol a chaffael cyhoeddus ehangach.

# Strategaeth a chontractio

01

# Mae contractio ar gyfer defnyddio WCCIS ledled Cymru yn rhan allweddol o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig

## WCCIS yw'r galluogwr digidol allweddol i gefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig

1.1 I Lywodraeth Cymru, mae cofnod iechyd a gofal cymdeithasol electronig cyffredin yn allweddol i'w huchelgais o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn **Cymru Iachach**[1], ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflymu'r broses o'i chyflwyno ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

1.2 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio egluro beth mae'r dull 'Unwaith i Gymru' ar gyfer systemau digidol a nododd yn 2015[2] yn ei olygu'n ymarferol. Mae wedi cadarnhau bod y dull hwn yn caniatáu ar gyfer rhai 'systemau cenedlaethol' i Gymru gyfan ac ar gyfer gwahanol systemau 'rhyngweithredol' gan ddefnyddio'r un safonau. Wedi'i atgyfnerthu gan y profiad o ymateb i'r pandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried bod dull cenedlaethol o rannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn fodel priodol i alluogi cydgysylltu gofal yn y gymuned.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd system TG ar ei phen ei hun yn cyflawni'r newidiadau i iechyd a gofal cymdeithasol y mae am eu gweld. Ymhlith pethau eraill, nod y Gronfa Trawsnewid[3] a'r Gronfa Gofal Integredig[4] yw cefnogi gweithio integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

1 Llywodraeth Cymru, **Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, Mehefin 2018.

2 Llywodraeth Cymru, **Iechyd a Gofal Gwybodus – Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru**, Rhagfyr 2015.

3 Mae'r Gronfa Trawsnewid yn weithredol rhwng 2018-2021, ac mae wedi'i thargedu at brosiectau â blaenoriaeth a modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o gyflymu eu datblygiad a dangos eu gwerth.

4 Gweler Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Y Gronfa Gofal Integredig**, Gorffennaf 2019 am ragor o wybodaeth.

## O dan 'Gytundeb Gwasanaethau Meistr', gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd gytuno ar 'orchmynion defnyddio' gyda'r cyflenwr – CareWorks – heb fod angen eu proses gaffael eu hunain

1.4 Dyfarnwyd contract WCCIS i'r cyflenwr, CareWorks, ym mis Rhagfyr 2014 ac fe'i llofnodwyd ym mis Mawrth 2015. Roedd gan CareWorks brofiad yn bennaf o ddarparu atebion meddalwedd gofal cymdeithasol. Roedd y cwmni eisoes wedi darparu systemau gofal cymdeithasol ar gyfer consortiwm o wyth awdurdod lleol yng Nghymru.

1.5 Arweiniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y broses gaffael oherwydd, bryd hynny, roedd angen iddo ddisodli ei system gwybodaeth gofal cymdeithasol ac roedd wedi gweithredu fel awdurdod arweiniol mewn consortiwm o wyth awdurdod lleol o'r blaen. Roedd 'Bwrdd Caffael ar y Cyd' gyda chynrychiolaeth ehangach o lywodraeth leol a GIG Cymru yn cefnogi'r broses gaffael.

1.6 Bwriad CareWorks oedd defnyddio dau is-gontractwr i ddechrau. Byddai un o'r isgontractwyr yn helpu i ddatblygu gweithrediad gofynnol y bwrdd iechyd. Rhwng dyfarnu contractau ac arwyddo contractau, newidiodd cynnig CareWorks ac nid oedd bellach yn cynnwys yr is-gontractwr hwnnw – Advanced[5]. Nid ydym wedi gallu cadarnhau a oedd y rhai sy'n gyfrifol am y broses gontractio yn ystyried effaith y newid hwn ar allu CareWorks i gyflawni'r swyddogaethau iechyd gofynnol, y mae rhai ohonynt yn dal heb eu bodloni. Dywedodd Advanced wrthym ei fod yn tynnu'n ôl gan ei fod yn teimlo na ellid cyflawni gofynion y system o fewn yr amserlen a'r amlen gost a gynigiwyd ar y pryd. Ar ddiwedd 2019, daeth CareWorks yn rhan o Advanced gan arwain at newidiadau i drefniadau rheoli CareWorks ar gyfer WCCIS.

1.7 Mae'r model cytundebol yn gweithredu fel 'contract yn ôl y gofyn', gan gynnwys 'Cytundeb Gwasanaethau Meistr' (MSA) a 'gorchmynion defnyddio' ar wahân (**Blwch 1**). Gan gynnwys cyfleoedd i ymestyn, mae'r contract yn rhedeg tan fis Mawrth 2027. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol o'r farn bod sail dros ymestyn gorchmynion defnyddio unigol y tu hwnt i 12 mlynedd, fel y gall mabwysiadwyr cynnar barhau i ddefnyddio WCCIS tan 2030. Byddai hyn yn helpu i gysoni dyddiadau terfynu a hwyluso caffael cydweithredol yn y dyfodol.

1.8 Cynigiodd CareWorks ostyngiad ariannol cyffredinol a oedd yn dod i 11.5% o'r prisiau yn ei gais gwreiddiol pe bai'r costau am drwyddedau a seilwaith TGCh yn cael eu talu ymlaen llaw yn hytrach nag wrth i sefydliadau weithredu'r system. Roedd yn well gan Lywodraeth Cymru'r opsiwn hwn, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r costau ymlaen llaw.

5 Parhaodd yr is-gontractwr arall yn rhan o'r rhaglen i ddarparu cymorth storio data a seilwaith.

1.9 Serch hynny, mae'r fframwaith cytundebol yn amlygu rhai risgiau gwerth am arian i Lywodraeth Cymru. Mae'r enillion y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael ar ei buddsoddiad mewn datblygu meddalwedd, caledwedd a thrwyddedau yn dibynnu ar gyflymder y broses o gyflwyno'r system a'r defnydd y mae sefydliadau'n ei wneud o'r swyddogaethau sydd ar gael. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr unig sefydliad yr oedd ei angen i lofnodi gorchymyn defnyddio. Roedd natur 'yn ôl y gofyn' y fframwaith cytundebol hefyd yn amlygu CareWorks i rai risgiau ariannol.

**Blwch 1: Y fframwaith cytundebol ar gyfer WCCIS (fel y cytunwyd yn wreiddiol)**

**Cytundeb Gwasanaethau Meistr (MSA)**

- Ymrwymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r MSA gyda CareWorks
- Mae'r Cytundeb Gwasanaethau Meistr yn nodi'r telerau ac amodau cyffredinol y mae'n rhaid i sefydliadau lleol sy'n gweithredu WCCIS eu dilyn
- Er enghraifft, mae'n nodi'r 'Datganiad o Ofynion', datrysiad technegol CareWorks i'r Datganiad o Ofynion, trefniadau llywodraethu, mecanweithiau datrys anghydfodau, prosesau rheoli newid, lefelau gwasanaeth a thaliadau gwasanaeth

**Gorchmynion defnyddio**

**1 x** ar gyfer y caledwedd canolog, trwyddedau Cymru gyfan a 'chostau datblygu suddedig'[6] a wariwyd gan CareWorks, gyda'r costau hyn yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru

**[Hyd at] 29 x** y cytunwyd arnynt rhwng CareWorks ac awdurdodau lleol unigol a byrddau iechyd[7] – gan gynnwys elfennau cyffredin ond y gellir eu teilwra i fodloni gofynion lleol

**Amserlenni contract gwreiddiol**

- O leiaf wyth mlynedd, o fis Mawrth 2015, ar gyfer y MSA
- Opsiwn i ymestyn yr MSA am bedair blynedd, tan fis Mawrth 2027 (ar sail 1+1+1+1)
- Gall gorchmynion defnyddio lleol redeg y tu hwnt i Fawrth 2027 ond rhaid iddynt ddod i ben erbyn Mawrth 2030
- Gweithiodd gorchmynion defnyddio lleol ar sail 8+1+1+1+1 flwyddyn i ddechrau, ond ers hynny maent wedi'u diwygio

6 Cyn ymrwymo i'r contract, ar ei risg ei hun, gwnaeth CareWorks welliannau i'r cynnyrch CareDirector oedd yn bodoli er mwyn bodloni rhai o'r gofynion, ar gost o £2.2 miliwn.

7 Er mai lleoliadau awdurdodau lleol a byrddau iechyd fu'r ffocws, mae'r fframwaith cytundebol yn caniatáu i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gytuno ar orchmynion defnyddio. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi ymgysylltu â'r ddau sefydliad i'w helpu i ddeall manteision posibl gweithredu WCCIS.

## Bu'n rhaid i'r fframwaith contractio esblygu er mwyn annog darpariaeth gan CareWorks, cynnydd yn nifer y sefydliadau sy'n manteisio arno ac er mwyn cywiro taliadau gwasanaeth rhai sefydliadau

1.10 O dan y contract, roedd disgwyl i'r system fod yn gallu gweithredu'n llawn cyn diwedd 2015. Nid oedd y contract yn darparu ar gyfer unrhyw 'iawndal penodedig'[8] pe na bai CareWorks yn cyflawni'r gweithrediad llawn yn brydlon, neu daliadau ychwanegol pe bai'n bodloni terfynau amser cytundebol. Fodd bynnag, mae natur cyfnod penodol y contract yn rhoi rhywfaint o gymhelliant i CareWorks, o gofio bod ei refeniw'n seiliedig ar y nifer sy'n manteisio arno. Mae darpariaethau hefyd o fewn gorchmynion defnyddio unigol ar gyfer 'oedi taliadau' mewn rhai amgylchiadau.

1.11 Roedd y model ariannol yn yr MSA yn nodi'r taliadau gwasanaeth yr oedd disgwyl i bob sefydliad eu talu i CareWorks dros gyfnod cychwynnol wyth mlynedd eu gorchymyn defnyddio. Roedd cyfanswm y taliadau gwasanaeth ychydig dros £29 miliwn ar draws y 22 awdurdod lleol a'r saith bwrdd iechyd. Fodd bynnag, byddai'r costau gwirioneddol yn cynyddu dros amser i adlewyrchu chwyddiant. Os bydd sefydliadau'n dewis ymestyn eu gorchmynion defnyddio, mae'r model ariannol yn darparu ar gyfer cyfradd â gostyngiad[9].

1.12 Roedd y taliadau gwasanaeth yn ystyried maint cymharol pob sefydliad a'r gost i CareWorks o ddarparu cymorth ar gyfer gweithredu'n lleol. Roedd y taliadau'n sefydlog, ni waeth pa mor eang y gallai sefydliadau ddewis defnyddio'r system ar draws eu gwasanaethau neu faint o'r swyddogaethau disgwyliedig oedd ar gael pan oeddent yn llofnodi gorchmynion defnyddio.

1.13 Roedd y taliadau gwasanaeth hefyd yn cynnwys cyfraniadau tuag at £0.50 miliwn ar gyfer datblygu meddalwedd nad oedd wedi ei ddatblygu er mwyn cyflawni'r gweithrediad datganiad o ofynion. Roedd y costau hyn yn ychwanegol at y costau datblygu a dalwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno i ariannu'r costau datblygu meddalwedd hyn ac eithrio'r £0.02 miliwn a dalwyd eisoes gan sefydliadau oedd yn ei ddefnyddio hyd at fis Medi 2019. Mae'r taliadau gwasanaeth wedi'u haddasu'n unol â hynny. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu rhywfaint o ddatblygiadau ychwanegol ar gyfer gwell gweithrediad y tu hwnt i'r datganiad o ofynion.

8 Mae cymal iawndal penodedig yn ffordd gyffredin o ddelio â thor-contract posibl o dan gontract masnachol. Rhaid i'r swm y mae'n rhaid ei dalu gael ei bennu ymlaen llaw (amcangyfrif rhesymol o'r golled benodol) a'i gynnwys yn y contract.

9 Estyniad blwyddyn = gostyngiad o 10%; estyniad dwy flynedd = 15%; estyniad tair blynedd = 25%; estyniad pedair blynedd = 35%.

1.14 Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol a CareWorks ar amrywiad contract i gefnogi CareWorks i gynnal gallu datblygu a chyflymu'r gwaith sy'n weddill o ran datblygu'r feddalwedd. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd CareWorks bellach yn derbyn rhai taliadau yn gynharach na'r disgwyl pan fydd yn cyflawni'r swyddogaethau sy'n weddill i set gytûn o gerrig milltir talu.

1.15 Mae newidiadau cytundebol eraill wedi effeithio ar y ffordd y mae'r gorchmynion defnyddio a thaliadau gwasanaeth yn gweithio'n ymarferol ar draws gwahanol sefydliadau. I ddechrau, roedd tymor y contract yn dechrau o'r dyddiad y llofnodwyd gorchymyn defnyddio. Roedd hyn yn wir am Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unig, a dyna'r sefydliad cyntaf i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, roedd pryder y byddai hyn yn annog sefydliadau eraill i beidio â llofnodi archebion am eu bod yn awyddus i osgoi i'r contract redeg i lawr cyn i'r system fod yn barod. Yn y cyfamser, roedd CareWorks yn gorfod gwneud gwaith paratoi heb unrhyw ymrwymiad cadarn gan sefydliadau.

1.16 Yn dilyn ail-negodi yn ystod blwyddyn gyntaf yr MSA, dim ond pan fydd y sefydliad contractio yn fodlon bod y system wedi bod yn gweithredu mewn modd sefydlog am 30 diwrnod - 'gweithrediadau sefydlog' y bydd y contract ar waith. Y dybiaeth oedd y byddai'n cymryd tua chwe mis ar ôl llofnodi gorchmynion defnyddio i gyrraedd gweithrediadau sefydlog[10]. Felly, gostyngwyd hyd cyffredinol y contract o wyth mlynedd i 7.5 mlynedd. Roedd sefydliadau'n dal i fod yn atebol am werth wyth mlynedd lawn y taliadau gwasanaeth a nodwyd yn yr MSA ond roedd y rhain i'w talu dros gyfnod o 7.5 mlynedd yn lle hynny.

1.17 Roedd camgymeriad yn y model ariannol yn yr MSA, a ddarganfuwyd ar ôl i dymor y contract gael ei newid i 7.5 mlynedd, yn golygu nad oedd y taliadau gwasanaeth ar gyfer saith sefydliad[11] yn cwmpasu'r tymor llawn, gwerth hyd at dri mis o daliadau yn brin. Cynigiodd CareWorks y dewis o barhau gyda thymor contract byrrach neu wneud iawn am y gwahaniaeth dros dymor llawn y contract. Dewisodd pob un o'r saith sefydliad dymor contract cychwynnol byrrach. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi esbonio y barnwyd bod yr opsiwn hwn yn fwy cost effeithiol pe gofynnid am estyniad contract ar ôl tymor cychwynnol y contract o ystyried y cyfraddau gostyngol ar gyfer yr estyniadau (**paragraff 1.11**).

10 Yn ymarferol, yn gyffredinol mae gwaith gweithredu i gyrraedd gweithrediadau sefydlog wedi cymryd mwy na chwe mis.

11 Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ceredigion.

1.18 Mae pob awdurdod lleol sydd wedi defnyddio'r system hyd yma yn atebol am daliadau gwasanaeth ar y cyfraddau a nodwyd yn wreiddiol yn yr MSA. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2017 cytunodd Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS ar fodel ariannol diwygiedig ar gyfer y pum bwrdd iechyd nad oeddent eisoes wedi llofnodi gorchmynion defnyddio[12]. Roedd y model diwygiedig yn seiliedig ar weithredu fesul cam[13] yn hytrach na phopeth ar unwaith. Roedd CareWorks hefyd wedi cytuno i ostyngiad cyffredinol yn y taliadau gwasanaeth o dan y model hwn oherwydd newidiadau yn yr amserlenni gweithredu arfaethedig ac nid oedd yr holl swyddogaethau disgwyliedig ar gael i fyrddau iechyd.

1.19 Gall sefydliadau sy'n llofnodi gorchmynion defnyddio gomisiynu swyddogaethau ychwanegol y tu hwnt i'r hyn y darperir ar eu cyfer yn y contract gwreiddiol. Er enghraifft, comisiynodd Cyngor Dinas Casnewydd ryngwyneb â'i system cyllid corfforaethol. Y Cyngor dalodd am y costau datblygu, ond mae'r un swyddogaeth bellach ar gael i sefydliadau eraill. Ni fyddai'n rhaid i unrhyw sefydliad arall sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth hon dalu costau datblygu ond byddai'n talu taliadau gwasanaeth ychwanegol.

12 Roedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eisoes wedi llofnodi gorchmynion defnyddio erbyn hyn.

13 Unwaith y bydd gweithrediadau sefydlog wedi'u cyrraedd ar gyfer cam cyntaf y broses weithredu, rhaid cwblhau unrhyw gamau dilynol o fewn 24 mis. Byddai'r bwrdd iechyd yn atebol am daliadau gwasanaeth pe bai unrhyw oedi pellach yn deillio o benderfyniadau lleol.

# Cyflwyno a chostau

02

# Mae gweithredu a chyflwyno WCCIS yn cymryd llawer mwy o amser ac yn fwy costus na'r disgwyl, gyda'r rhagolygon ar gyfer defnydd llawn yn dal i fod yn ansicr

## Mae'r cyflwyno wedi bod yn llawer arafach na'r disgwyl, gyda rhai sefydliadau'n dal i ymrwymo a gwnaed dewisiadau gwahanol ynglŷn â faint o ddefnydd i'w wneud o'r system


### Ar 31 Awst 2020, roedd 19 o sefydliadau'n defnyddio WCCIS neu wedi llofnodi gorchmynion defnyddio, gyda phedwar mewn trafodaethau gweithredol a chwech eto i ymrwymo

2.1 Amcangyfrifodd yr achos busnes llawn cychwynnol ym mis Mawrth 2015 y gallai gweithredu llwyddiannus ar gyfer Cymru gyfan gymryd hyd at bedair blynedd i'w gyflawni. Awgrymodd amcangyfrif o'r dyddiadau, a adlewyrchwyd hefyd yn y dogfennau cytundebol, y gallai pob un o'r 29 sefydliad fod yn defnyddio'r system erbyn mis Rhagfyr 2018. O'r rhain, nodwyd 11 sefydliad ar gyfer y posibilrwydd o fynd yn fyw gyda'r system yn 2015-16 a naw yn 2016-17. Nid oedd ymrwymiad i'r amserlenni hyn. Rhagwelwyd y byddai'r cynlluniau datblygu a gweithredu manwl yn cael eu cwblhau mewn trafodaethau â'r cyflenwr a'r sefydliadau a oedd yn cyfranogi.


2.2 Ar 31 Awst 2020, roedd 13 awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – wedi mynd yn fyw ac yn defnyddio WCCIS mewn rhyw ffordd (**Ffigur** 1). Roedd yr achos busnes yn argymell y dylid cyflwyno WCCIS ar sail ranbarthol a'i ffurfweddu i gefnogi ffyrdd rhanbarthol o weithio, gan adlewyrchu datblygiadau polisi ehangach. Nid yw'r dull hwn o gyflwyno'r rhaglen wedi digwydd yn ymarferol.

**Ffigur 1: Statws gweithredu awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar 31 Awst 2020**

- Yn fyw
- Gorchymyn defnyddio wedi'i lofnodi ond ddim yn fyw eto
- Heb lofnodi gorchymyn defnyddio



1 Cyngor Sir Ynys Môn
2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
3 Cyngor Sir y Fflint
4 Cyngor Sir Ddinbych
5 Cyngor Gwynedd
6 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
7 Cyngor Sir Powys
8 Cyngor Sir Ceredigion
9 Cyngor Sir Gâr
10 Cyngor Sir Penfro
11 Cyngor Abertawe
12 Cyngor Castell-nedd Port Talbot
13 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
14 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
16 Cyngor Bro Morgannwg
17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
18 Cyngor Caerdydd
19 Cyngor Dinas Casnewydd
20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
22 Cyngor Sir Fynwy




- Yn fyw
- Gorchymyn defnyddio wedi'i lofnodi ond ddim yn fyw eto
- Heb lofnodi gorchymyn defnyddio

**Cliciwch yma i gael mynediad at ein hadnodd data rhyngweithiol** sy'n rhoi rhagor o fanylion am y sefyllfa o gyflwyno ar draws pob un o'r 29 sefydliad.

Ffynhonnell: Tîm y Rhaglen Genedlaethol

2.3 Mae dau awdurdod lleol arall wedi llofnodi gorchmynion defnyddio. O'r saith awdurdod lleol sy'n weddill, mae tri yn cynnal trafodaethau gweithredol gyda'r cyflenwr ac nid yw pedwar yn mynd ar drywydd manteisio ar WCCIS ar hyn o bryd.

2.4 O'r pum bwrdd iechyd sy'n weddill, mae dau wedi llofnodi gorchmynion defnyddio. Llofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan orchymyn defnyddio ym mis Mawrth 2018 gyda'r bwriad o'i weithredu'n llawn erbyn mis Ionawr 2021. Trefnwyd cam cyntaf y broses o weithredu mewn gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer mis Mehefin 2019. Ym mis Chwefror 2019, dywedodd CareWorks wrth y bwrdd iechyd na fyddai'n gallu bodloni'r dyddiad hwn. Ar hyn o bryd, mae'r amserlen i'r bwrdd iechyd weithredu unrhyw agwedd ar WCCIS yn parhau i fod yn ansicr. Ym mis Ebrill 2020, ysgrifennodd y bwrdd iechyd at CareWorks gyda chais am 'oedi taliadau' o dan delerau'r contract. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ymgysylltu â'r cyflenwr i weithio drwy'r materion er mwyn helpu i lywio cynllun cywiro.

2.5 Ar ôl llofnodi gorchymyn defnyddio ym mis Mawrth 2016, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddyddiad mynd yn fyw cychwynnol o fis Ebrill 2017 ar gyfer gweithredu fesul cam gan ddechrau gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl. Ni chafodd y dyddiad ei fodloni, ac yna cafwyd trafodaeth rhwng y bwrdd iechyd a CareWorks ynghylch rhoi'r system ar waith ar raddfa fach i ddechrau ar gyfer y timau nyrsio ac iechyd meddwl cymunedol. Mae'r bwrdd iechyd wedi ein hysbysu y bydd yn adolygu'r potensial ar gyfer gweithredu WCCIS, ynghyd â rhaglenni blaenoriaeth eraill, wrth iddo ddychwelyd i fusnes fel arfer ar ôl COVID-19.

2.6 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cynnal trafodaethau â CareWorks i weithio tuag at orchymyn defnyddio. Nid yw dau fwrdd iechyd arall yn gweithio tuag at lofnodi gorchymyn defnyddio ar hyn o bryd. Barn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw, hyd yn oed pan fydd yr holl swyddogaethau y cytunwyd arnynt ar gael, na fyddai'r fersiwn gyfredol o WCCIS yn bodloni ei ofynion, gan gynnig llai a phrofi'n llawer mwy costus o gymharu â'i drefniadau presennol. Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cynnal trafodaethau gweithredol â CareWorks ond mae'n bwriadu gweithredu WCCIS mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn gyntaf, unwaith y bydd y swyddogaeth berthnasol ar gael.

2.7 Hyd yn oed gyda mantais edrych yn ôl, mae'n ymddangos i ni fod yr amserlenni gweithredu amcangyfrifedig a nodir yn yr achos busnes llawn wedi bod yn afrealistig. Nid yw'n ymddangos bod yr amserlenni wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r gwaith oedd ei angen i weithredu'r system a rheoli'r prosesau newid busnes angenrheidiol, boed hynny ar lefel genedlaethol neu leol.

2.8 Mae gallu CareWorks i gefnogi gweithredu hefyd wedi bod yn bryder drwy'r rhan fwyaf o'r cyfnod hyd yma. Fel y nodwyd ym **mharagraff 1.6**, bwriad CareWorks oedd gweithio gydag is-gontractwr yn wreiddiol i helpu i ddatblygu swyddogaethau gofynnol y bwrdd iechyd. Yn ogystal, prin fod y fframwaith cytundebol gwreiddiol yn annog sefydliadau i gefnogi gweithredu neu i gymell y gwaith o gyflawni gan CareWorks (**paragraff 1.10**).

2.9 I'r rhan fwyaf o'r sefydliadau (11 o blith 15) sydd wedi mynd yn fyw, methwyd â chychwyn ar y dyddiadau mynd yn fyw y cytunwyd arnynt mewn gorchmynion defnyddio. Gydag awdurdodau lleol, yr oedi cyfartalog oedd pedwar mis gydag ystod rhwng un mis a 26 mis. I'r ddau fwrdd iechyd, yr oedi oedd un mis a phum mis.

**Ar hyn o bryd, mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae sefydliadau'n dewis defnyddio WCCIS yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer gweithio integredig ac yn codi materion eraill ynghylch gwerth am arian**

2.10 Gall 'byw' olygu gwahanol bethau gan y gall sefydliadau ddewis pa elfennau o'r swyddogaethau sydd ar gael y maent yn eu defnyddio a pha mor eang y maent yn defnyddio'r system. Ar gyfer byrddau iechyd, mae'r amrywioldeb wedi codi gan fod ganddynt orchmynion defnyddio wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol:

a Mae gorchymyn defnyddio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn seiliedig ar y sefydliad yn mynd yn fyw gyda'r holl swyddogaethau iechyd sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae'n defnyddio'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau sydd ar gael. Ym mis Awst 2020, roedd gan y bwrdd iechyd 1,083 o ddefnyddwyr y system.

b Mae gorchymyn defnyddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cwmpasu elfen nyrsio cymunedol y system yn unig. Ym mis Awst 2020, roedd ei 113 o ddefnyddwyr yn defnyddio'r system i ddarparu gwasanaethau nyrsio cymunedol yng Ngheredigion[14]. Mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn Sir Benfro a Sir Gâr ac yn edrych ar sut y gallai ddefnyddio WCCIS mewn rhai gwasanaethau therapïau.

c Fel y nodwyd ym **mharagraff 2.4**, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cytuno ar ddull gweithredu WCCIS fesul cam.

14 Cyngor Sir Ceredigion yw'r unig un o'r tri awdurdod lleol yn rhanbarth Hywel Dda sydd wedi llofnodi gorchymyn defnyddio. Aeth y Cyngor yn fyw gyda'r system ym mis Awst 2016.

2.11 Mae pob gorchymyn defnyddio awdurdodau lleol yn caniatáu ar gyfer darpariaeth ar draws ystod eang o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Ar gyfer rhai gwasanaethau, megis pobl hŷn anabl a bregus a diogelu plant, mae pob un o'r 13 awdurdod lleol byw yn defnyddio WCCIS mewn rhyw ffordd, ond yn dal i fod â gwahaniaethau ym manylion eu defnydd. Mae mwy o ymagwedd dewis a chymysgu mewn meysydd eraill. Dim ond un awdurdod lleol sydd wedi mynd yn fyw sy'n defnyddio swyddogaethau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, gyda'r un peth yn wir am fabwysiadu. Barn Tîm y Rhaglen Genedlaethol yw bod rhywfaint o amrywiad i'w ddisgwyl o'r dechrau gan ei fod yn adlewyrchu anghenion lleol a bod yr hyblygrwydd hwn wedi annog pobl i fanteisio ar y system, gyda'r cyfle i wneud mwy o ddefnydd o'r system wrth i orchymyn defnyddio fynd rhagddo.

2.12 Nid oedd yr achos busnes llawn yn cyfleu unrhyw ddisgwyliadau penodol ynghylch faint o ddefnydd y byddai sefydliadau'n ei wneud o'r system ar draws gwahanol wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r darlun presennol yn golygu, hyd yn oed lle mae'r system yn fyw, nad yw'n cael ei defnyddio eto i'w llawn botensial. Mae hyn, yn ei dro, yn codi cwestiynau am werth am arian cyffredinol y gwariant hyd yma. Mae costau tâl gwasanaeth rhai sefydliadau ychydig yn is na'r costau yr oeddent yn eu gwario wrth ddefnyddio systemau blaenorol. Serch hynny, mae'r fframwaith cytundebol yn golygu bod pob un yn ei hanfod yn talu taliadau gwasanaeth am swyddogaethau nad ydynt yn eu defnyddio ar hyn o bryd, er i wahanol raddau.

2.13 Mae'r darlun cyffredinol o ddefnyddio a'r gwahanol ddulliau gweithredu yn golygu ei bod yn anodd ar hyn o bryd gweithredu rhai elfennau o'r rhannu gwybodaeth a'r manteision gwaith integredig yr oedd disgwyl i'r system eu cefnogi. Fel rhan o waith ehangach i nodi gofynion data a gwybodaeth o amgylch COVID-19 ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned, defnyddiwyd WCCIS i helpu i nodi pobl sy'n agored i niwed er mwyn hwyluso darparu pecynnau gofal. Mae WCCIS hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gofal adsefydlu yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n gwella o'r coronafeirws. Mae'r defnydd o WCCIS i gefnogi ymateb COVID-19 wedi tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â safonau data cenedlaethol. Mae hefyd wedi dangos bod hyn yn bosibl os rhoddir digon o ffocws arno.

## Mae agweddau allweddol ar y ffordd yr oedd disgwyl i'r system weithio wedi'u gohirio'n sylweddol ac mae angen i Dîm y Rhaglen Genedlaethol hefyd fynd i'r afael â phryderon am berfformiad y system

2.14 Fel y nodwyd ym **mharagraff 1.10**, mae rhai dogfennau cynnar ar gyfer WCCIS yn awgrymu y disgwylid i CareWorks yn y lle cyntaf fod wedi cyflawni'r holl swyddogaethau y cytunwyd arnynt erbyn mis Hydref 2015. Ym mis Awst 2020, roedd agweddau allweddol ar y swyddogaethau y cytunwyd arnynt yn wreiddiol yn parhau i beidio bod ar gael yn llawn, yn benodol yr ap ar gyfer dyfeisiau symudol, y rhyngwynebau sydd eu hangen i alluogi WCCIS i integreiddio'n effeithiol â systemau TG eraill GIG Cymru a gofynion y Gymraeg (**Blwch 2**). Yn rhai o'r meysydd hyn, ychwanegwyd at y gofynion cytundebol gwreiddiol ac mae angen gwaith o hyd i gyflawni'r 'gwelliannau' hyn.

**Blwch 2: Meysydd allweddol lle nad yw'r swyddogaeth ar gael yn llawn eto, ym mis Awst 2020**

**Integreiddio** – Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i CareWorks ddatblygu rhyngwynebau rhwng WCCIS a sawl system/gwasanaeth GIG Cymru arall, er enghraifft, i gael mynediad at ganlyniadau diagnostig, anfon gwybodaeth at feddygon teulu a'i derbyn ganddynt neu dderbyn atgyfeiriadau ysbyty i'r gymuned. Mae datblygu'r rhyngwynebau hyn yn gofyn am gydweithio rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, CareWorks a byrddau iechyd. Nodwyd rhai o'r rhyngwynebau gofynnol yn y Datganiad o Ofynion gwreiddiol, a chytunwyd ar eraill yn 2019 fel gwelliannau i gontract 2015.

O'r 16 rhyngwyneb y cytunwyd arnynt bellach, mae dau yn fyw ar hyn o bryd ac mae saith rhyngwyneb arall yn barod i gael eu profi. Mae'r saith sy'n weddill bellach wedi'u trefnu ar gyfer eu cyflwyno'n raddol hyd at ddiwedd 2021.

**Ap symudol** – O dan ofynion gwreiddiol y contract, rhaid i WCCIS allu gweithio ar blatfform symudol drwy systemau diwifr a 3/4G fel y gall staff y GIG ac awdurdodau lleol sy'n gweithio yn y gymuned gael mynediad iddo. Bydd fersiwn o'r ap ar gyfer dyfeisiau symudol sy'n seiliedig ar y gofynion gwreiddiol yn cael ei dreialu cyn diwedd 2020. Mae'r peilot wedi'i ohirio'n rhannol oherwydd effaith COVID-19 a gallu sefydliadau lleol i gefnogi'r gwaith hwn. Cytunwyd hefyd ar swyddogaethau gwell a disgwylir iddynt gael eu profi'n fuan, er enghraifft i gynnwys rheoli apwyntiadau.

**Y Gymraeg** – Rhaid i CareWorks ddarparu system sy'n cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sydd, gyda'i gilydd, yn rheoli defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw rhai agweddau allweddol ar y swyddogaethau y disgwylir iddynt fodloni gofynion y Gymraeg a nodir yn y contract gwreiddiol ar gael eto. Er enghraifft, nid yw'r system ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer casglu data strwythuredig yn Gymraeg.

2.15 Mae wedi bod yn glir i Dîm y Rhaglen Genedlaethol ers ei weithredu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2016, nad oedd y system yn cynnwys rhywfaint o'r swyddogaethau y cytunwyd arnynt yn y contract. Canfu adolygiad Gateway ym mis Tachwedd 2017 fod gan Dîm y Rhaglen Genedlaethol a CareWorks safbwyntiau gwahanol ynghylch a oedd y materion a nodwyd yn rhan o'r gofynion cytundebol gwreiddiol neu'n welliannau i'r gofynion. Yng nghanol 2018, dechreuodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol weithio i nodi rhestr bendant o'r swyddogaethau a oedd dal heb eu bodloni.

2.16 Erbyn mis Mawrth 2019, roedd CareWorks a Thîm y Rhaglen Genedlaethol wedi nodi nad oedd 157 o'r 1,500 o eitemau a nodwyd yn y Datganiad o Ofynion wedi'u cyflawni. Yn ogystal, nid oedd desg wasanaeth CareWorks yn gweithredu yn ôl y gofyn, nid oedd y system yn cefnogi adroddiadau perfformiad yn ôl y disgwyl, ac roedd diweddariadau i ddatrys problemau hirsefydlog yr oedd sefydliadau oedd wedi mynd yn fyw yn eu cael yn methu profion[15]. O dan y Cytundeb Gwasanaethau Meistr, cyhoeddodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol hysbysiad diffyg cydymffurfio cytundebol i CareWorks gan ofyn iddynt unioni'r sefyllfa.

2.17 Ar ôl chwe mis arall o ddeialog, ym mis Tachwedd 2019 cytunodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol a CareWorks ar linell amser, neu fap ffordd, ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau a gwelliannau a oedd eto i'w cwblhau dros bedwar diweddariad hyd at fis Medi 2020. Cytunwyd hefyd ar daliadau carlam ynghlwm wrth gerrig milltir cyflenwi wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru (**paragraff 1.14**).

2.18 Yn rhannol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gohiriwyd y dyddiad mynd yn fyw cyntaf o bedwar diweddariad arfaethedig i'r system tan ganol mis Gorffennaf. Roedd hyn yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer diweddariadau pellach, sy'n cynnwys agweddau allweddol fel y swyddogaeth symudol gyda gwelliannau. Fodd bynnag, roedd effaith barhaus y pandemig yn golygu fod perygl sylweddol y byddai yna oedi i'r cynllun i gwblhau pob un o'r pedwar diweddariad erbyn mis Ionawr 2021. Yr amcangyfrif cyfredol yw y bydd y diweddariadau'n cael eu cyflwyno fesul cam hyd at ddiwedd 2021.

2.19 Yn ogystal, mae angen cadarnhau trefniadau ar gyfer cymorth gweithredol tymor hwy ar gyfer platfform y system. Mae'n hysbys ers 2018 fod WCCIS yn seiliedig ar fersiwn o blatfform Microsoft na fydd yn cael ei gefnogi ar ôl mis Gorffennaf 2021. Ers hynny, mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi bod yn trafod gyda CareWorks sut i ddatrys y mater.

15 Er enghraifft, nid oes modd archwilio rhai rhannau o'r system, ac efallai y bydd gan unigolyn gofnodion gweithredol lluosog yn rhedeg ar y system. Un o amcanion gwreiddiol WCCIS oedd gwella diogelwch cleifion drwy gael un cofnod. Er bod modd mynd at y gwahanol gofnodion, mae hyn yn golygu defnyddio ffordd o fynd o amgylch y broblem.

2.20 O dan yr opsiwn ‘gwneud cyn lleied â phosibl’, gall WCCIS symud i blatfform mwy diweddar a gefnogir gan Microsoft a bydd disgwyl i CareWorks dalu’r costau cysylltiedig o dan delerau’r contract. Yn ddiweddar, daeth opsiwn arall i’r amlwg o symud i fersiwn mwy newydd o’r system i’w gynnal yn y Cwmwl[16]. Ym mis Gorffennaf 2020, ystyriodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol y ddau opsiwn. Am amryw o resymau, roedd Tîm y Rhaglen Genedlaethol o’r farn nad oedd bellach yn ymarferol symud i’r fersiwn cwmwl o fewn yr amserlenni gofynnol.

2.21 Cyn diwedd 2020-21, mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn disgwyl cwblhau gwerthusiad manwl o gostau, manteision a risgiau symud i’r fersiwn cwmwl o WCCIS. Mae’n bwriadu ystyried hyn yng nghyd-destun penderfyniadau tymor hwy ynghylch ymestyn y cyfnod cytundebol a strategaeth ddigidol ehangach Llywodraeth Cymru, neu fel arall.

2.22 Bu rhai problemau perfformiad sylweddol gyda’r system dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r rhain wedi cynnwys rhai achosion o’r system yn diffodd yn llwyr ymhlith naw digwyddiad ‘difrifoldeb lefel 1’[17] a chyda straen ychwanegol ar y system yn ystod ymateb COVID-19. Rydym wedi clywed gan y rheng flaen am effaith materion perfformiad system ar allu staff i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae pryderon oherwydd ystyriaethau o ran perfformiad y system, gan gynnwys risgiau i staff a defnyddwyr gwasanaethau, hefyd wedi’u codi mewn rhai adroddiadau lleol gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

2.23 Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi cytuno ar gynllun gwella perfformiad gyda CareWorks, sydd wedi cynnwys gosod capasiti technegol ychwanegol, ynghyd â gwelliannau diweddar i feddalwedd. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn adrodd bod hyn wedi arwain at berfformiad llawer gwell o ran monitro’r sefyllfa’n barhaus.

16 Ar hyn o bryd, mae WCCIS yn cael ei gynnal yn ganolog ar galedwedd ffisegol yng nghanolfan ddata NWIS.

17 Digwyddiadau difrifoldeb lefel 1 yw’r math mwyaf difrifol o broblemau perfformiad system ac fe’i diffinnir fel un sy’n achosi effaith sylweddol ar fusnes gan atal gwasanaeth arferol rhag cael ei ddarparu.

## Mae gweithredu a chyflwyno WCCIS yn fwy costus na'r disgwyl ac mae angen buddsoddiad ychwanegol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau cysylltiedig

### Yn gyffredinol, mae ychydig dros £30 miliwn wedi'i wario neu wedi'i ymrwymo hyd at fis Mawrth 2022 gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

2.24 Lle y bo'n bosibl, aethom ati i gymharu costau amcangyfrifedig datblygu a chyflwyno WCCIS gydag amcangyfrifon cychwynnol yn yr achos busnes llawn. Yn gyffredinol, gellir rhannu costau canolog yn dri phrif faes: buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru; Gwariant Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar gymorth cenedlaethol i'r rhaglen; a chyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi costau sefydliadau lleol. Nid yw'n glir sut yn union y mae'r cyllid lleol hwn yn cael ei wario ar draws gwahanol weithgareddau. Fodd bynnag, mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi pwysleisio wrthym fod ei ddiben yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas yr achos busnes cychwynnol.

2.25 Rydym yn cydnabod y byddai rhywfaint o'r gwariant canolog i gefnogi gweithredu WCCIS yn lleol wedi digwydd beth bynnag er mwyn datblygu neu ddisodli systemau eraill fesul sefydliad. Hefyd, mae rhywfaint o'r gwariant hwnnw'n cefnogi trawsnewid gwasanaethau ehangach sy'n ymwneud â gweithredu WCCIS neu gyfrannu at daliadau gwasanaeth parhaus. Roedd yr achos busnes yn nodi costau ar wahân ar gyfer taliadau gwasanaeth parhaus, a thybiwyd y byddai'n cael ei dalu'n llawn gan sefydliadau lleol.

2.26 Mae **Ffigur 2** yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r £30.16 miliwn y gwyddys ei fod wedi'i wario gan Lywodraeth Cymru a NWIS sy'n cefnogi gweithredu a chyflwyno WCCIS hyd yma neu sydd wedi'i ymrwymo hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Er na allwn ddarparu cymhariaeth debyg am debyg, roedd yr achos busnes llawn yn caniatáu ar gyfer costau canolog Llywodraeth Cymru a chymorth rhaglen NWIS o £16.75 miliwn hyd at ddiwedd Mis Mawrth 2022 ac £20.18 miliwn dros gyfnod llawn o 13 mlynedd.

2.27 Mae **paragraffau 2.28 i 2.52** yng ngweddill y rhan hon o'n hadroddiad yn rhoi rhagor o fanylion am wariant Llywodraeth Cymru a NWIS ac am wariant ychwanegol gan sefydliadau lleol. Yn ogystal â'r costau a nodwyd, mae costau cyfle yn gysylltiedig ag amser staff sy'n cael ei neilltuo gan wahanol sefydliadau i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer gweithredu a chyflwyno WCCIS.

**Ffigur 2: Gwariant Llywodraeth Cymru a NWIS ar weithredu a chyflwyno WCCIS a thrawsnewid gwasanaethau cysylltiedig, hyd at fis Mawrth 2022 (gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo)**

Costau'r cyflenwr ar gyfer datblygu, caledwedd a thrwyddedau

Buddsoddiad Llywodraeth Cymru o **£8.41 miliwn**

Cymorth i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu lleol a thrawsnewid gwasanaethau'n ehangach

Buddsoddiad Llywodraeth Cymru o **£13.13 miliwn**



**System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru**

Rheoli'r Rhaglen yn Genedlaethol

Cyllidebau presennol NWIS a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o **£8.62 miliwn**

Ffynhonnell: Dadansoddiad Tîm y Rhaglen Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru

**Mae cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru o £8.4 miliwn o fewn amcangyfrifon yr achos busnes llawn ar hyn o bryd ond gyda chostau cyfalaf pellach mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo gael ei ysgwyddo gan y sefydliadau sy'n ei ddefnyddio**

2.28 Nododd yr achos busnes llawn ofyniad cyllid cyfalaf o £9.89 miliwn gan Lywodraeth Cymru (**Ffigur 3**), y cafodd bron y cyfan ohono ei broffilio yn y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Roedd disgwyl i awdurdodau lleol a byrddau iechyd nodi unrhyw ofynion cyllid cyfalaf lleol fel rhan o'u cynllunio lleol. Ym mis Rhagfyr 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo £8.41 miliwn o gyllid grant cyfalaf hyd at fis Mawrth 2022. Pe bai penderfyniad yn y dyfodol yn cael ei wneud i symud i'r fersiwn cwmwl mwy newydd o'r system (**paragraffau 2.20 i 2.21**), bydd angen cyllid ychwanegol o dan ei achos busnes ei hun.

**Ffigur 3: Cyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu WCCIS, hyd at fis Mawrth 2022 (£ miliynau)**

| | Amcangyfrif llawn o'r achos busnes hyd at fis Mawrth 2027 | Cyfanswm yr arian grant (gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo hyd at fis Mawrth 2022) |
|---|---|---|
| Trwyddedau Cymru gyfan | 3.94 | 3.28 |
| Datblygu meddalwedd | 3.60 | 3.00 |
| Caledwedd canolog[1] | 2.26 | 2.10 |
| Seilwaith rhwydwaith[2] | 0.09 | 0.03 |
| **Cyfanswm** | **9.89** | **8.41** |

Nodiadau:

1 Roedd yr amcangyfrif achos busnes yn cynnwys amcangyfrif o £0.94 miliwn ar gyfer adnewyddu caledwedd yn 2020-21.

2 Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi dweud wrthym, er iddo gael £0.09 miliwn yn wreiddiol ar gyfer seilwaith rhwydwaith, na fydd yn defnyddio mwy na'r £0.03 miliwn a wariwyd eisoes. Mae'r £0.06 miliwn sy'n weddill wedi'i gynnwys yn yr ymrwymiad a ddangoswyd ar gyfer caledwedd canolog.

Ffynhonnell: Adroddiadau llawn achos busnes ac adroddiadau Tîm y Rhaglen Genedlaethol WCCIS

2.29 Ym mis Mawrth 2015, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru £6.58 miliwn gychwynnol o gyllid cyfalaf ar gyfer trwyddedau, datblygu meddalwedd a chostau caledwedd canolog. Roedd y ffigur hwn yn eithrio darpariaeth ar gyfer cynlluniau i adnewyddu'r caledwedd canolog. Roedd hefyd yn eithrio costau seilwaith rhwydwaith o £0.09 miliwn a oedd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru mewn cymeradwyaeth ar wahân. Yn y cyfamser, roedd cost negodi'r trwyddedau gofynnol yn is na'r hyn oedd yn ddisgwyliedig yn yr achos busnes a chafodd rhywfaint o ddatblygu meddalwedd ychwanegol ei gynnwys i ddechrau yn y taliadau gwasanaeth ar gyfer sefydliadau lleol (**paragraff 1.13**).

2.30 Ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid grant cyfalaf ychwanegol o £1.80 miliwn o'i Chronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol[18]. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth arall o £1 filiwn ar gyfer y cynllun i adnewyddu'r caledwedd canolog a £0.80 miliwn ar gyfer datblygu meddalwedd. Mae'r cyllid datblygu meddalwedd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r costau a oedd wedi'u cynnwys i ddechrau mewn taliadau gwasanaeth lleol a rhai gwelliannau ychwanegol nad oeddent o fewn cwmpas gwreiddiol yr achos busnes a'r contract[19].

2.31 Amcangyfrif oedd y ffigur o £0.80 miliwn y cytunwyd arno ar gyfer datblygu meddalwedd. Y ffigur diweddaraf yn dilyn trafodaethau masnachol yw £1.12 miliwn. Bydd angen i sefydliadau sy'n defnyddio'r system benderfynu ar fforddiadwyedd a gwerth am arian y gwelliannau sy'n weddill nad ydynt yn dod o dan gyllid Llywodraeth Cymru.

2.32 Yn ogystal, mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wrthi'n trafod gyda'r cyflenwr i gwblhau'r costau i adnewyddu'r caledwedd canolog yn ystod 2020-21. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn rhagweld y gallai'r gost hon fod yn fwy na'r £1 filiwn a fydd ar gael o gyllid Llywodraeth Cymru. Mae sefydliadau sydd wedi llofnodi gorchmynion defnyddio yn atebol i dalu cyfran o unrhyw gostau ychwanegol.

18 Wedi'i gyhoeddi ym mis Medi 2019, mae'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol gwerth £50 miliwn yn canolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau digidol i gleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus, moderneiddio dyfeisiau a symud i wasanaethau Cwmwl, a seiberddiogelwch a chydnerthedd.

19 Roedd sefydliadau a oedd yn talu taliadau gwasanaeth eisoes wedi cyfrannu £0.02 miliwn at gostau datblygu meddalwedd, ac mae tua £0.30 miliwn o gyllid ymrwymedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau meddalwedd nad oeddent wedi'u cynnwys yn y contract gwreiddiol.

**Ar £8.6 miliwn, mae costau cymorth disgwyliedig y rhaglen genedlaethol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 oddeutu £1.7 miliwn yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn yr achos busnes llawn am yr un cyfnod**

2.33 Roedd yr achos busnes llawn yn amcangyfrif gofyniad o £10.28 miliwn ar gyfer cymorth y rhaglen genedlaethol dros gyfnod o 13 blynedd hyd at ddiwedd 2026-27 (**Ffigur 4**). O fewn hynny, roedd yn amcangyfrif fod gofyniad o £6.89 miliwn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 yn cynnwys:

- £1.77 miliwn i dalu am staff presennol NWIS a oedd yn cefnogi gweithredu WCCIS; a
- £5.12 miliwn ar gyfer cymorth ychwanegol penodol i Dîm y Rhaglen Genedlaethol.

**Ffigur 4: Gwariant gwirioneddol neu arfaethedig ar gymorth Tîm y Rhaglen Genedlaethol hyd at fis Mawrth 2022 (£ miliynau)**

| | Amcangyfrif llawn o'r achos busnes hyd at fis Mawrth 2022 | Amcangyfrif llawn o'r achos busnes hyd at fis Mawrth 2027 | Gwariant gwirioneddol/ wedi'i ymrwymo hyd at fis Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| NWIS (cyllidebau presennol) | 1.77 | 2.17 | 3.32 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru (ychwanegol) | 5.12 | 8.11 | 5.30 |
| **Cyfanswm** | **6.89** | **10.28** | **8.62** |

Sylwer: Roedd yr achos busnes llawn hefyd yn cynnwys amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â NWIS yn 'lletya' caledwedd TGCh WCCIS. Amcangyfrifwyd bod hyn yn £0.59 miliwn dros 13 mlynedd. Roedd sefydliadau sy'n defnyddio'r system wedi cyfrannu £0.06 miliwn hyd at ddiwedd 2019-20 gyda NWIS hefyd yn adrodd ei fod wedi ysgwyddo costau o £0.05 miliwn o leiaf. Nid ydym wedi rhoi cyfrif am y costau hyn yn ein dadansoddiad cyffredinol.

Ffynhonnell: Adroddiadau llawn achos busnes ac adroddiadau Tîm y Rhaglen Genedlaethol WCCIS

2.34 Tan fis Mawrth 2019, roedd costau cymorth yn dod i raddau helaeth gan gyfuniad o gyllidebau presennol NWIS ac £1.5 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig. Ym mis Mehefin 2019, wrth ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru, darparodd yr Uwch Berchnogion Cyfrifol ar gyfer rhaglen WCCIS amcangyfrif o'r costau cyffredinol a ysgwyddwyd ac adnoddau ychwanegol Tîm y Rhaglen Genedlaethol sy'n ofynnol hyd at fis Mawrth 2022 i helpu i gyflymu'r broses o'i weithredu mewn byrddau iechyd a'i gyflwyno'n llwyr.

2.35 Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu £3.80 miliwn ychwanegol o gymorth drwy'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol. Mae'r cyllid yn cynyddu capasiti a gallu mewn sawl maes. Ymhlith pethau eraill, mae'r rhain yn cynnwys desg wasanaeth cenedlaethol, profi'r system, hyfforddiant i sicrhau diogelwch cleifion, safoni cynnwys y system a gweithio i ddatblygu rhyngwynebau â systemau eraill y GIG (**paragraff 2.14**).


2.36 Yn ystod camau olaf ein gwaith, newidiodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol ei amcangyfrif o faint o adnoddau NWIS a oedd eisoes wedi'u gwario neu y credid bod eu hangen i gefnogi'r gwaith o reoli'r rhaglen genedlaethol dros 13 mlynedd llawn y rhaglen. Mae ei amcangyfrif gwreiddiol o £9.48 miliwn, a lywiodd y cais am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ar ben y ffigur hwn, wedi gostwng i £6.64 miliwn. Dywedodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol wrthym fod elfen flaengar ei amcangyfrif gwreiddiol yn ddamcaniaethol a bod rhywfaint o oramcangyfrif o ran gwariant y gorffennol wedi digwydd wrth baratoi'r ffigurau gwreiddiol.

2.37 Ynghyd â chyllid Llywodraeth Cymru, mae'r gost o £8.62 miliwn ar gyfer cymorth y rhaglen genedlaethol a amcangyfrifir hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 yn cymharu ag amcangyfrif llawn yr achos busnes o £6.89 miliwn. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi ein hysbysu mai rhan o'r rheswm dros y cynnydd yw nad oedd yr achos busnes yn cyfrif am chwyddiant cyflogau ar gyfer swyddi NWIS. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn dal i weithio drwy'r gofynion cymorth a'r trefniadau cyllido y tu hwnt i fis Mawrth 2022.

**Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ychydig dros £13 miliwn i gefnogi rhoi'r system ar waith ar lefel leol a chyflwyno a thrawsnewid gwasanaethau cysylltiedig**

2.38 Roedd yr achos busnes llawn yn cydnabod y byddai sefydliadau'n mynd i gostau lleol ychwanegol wrth weithredu WCCIS. Mae **Ffigur 5** yn disgrifio rhai o'r costau y gellid eu gwario.

**Ffigur 5: Enghreifftiau o gostau i gefnogi rhoi WCCIS ar waith yn lleol**





Ffynhonnell: Archwilio Cymru

2.39 Amcangyfrifodd yr achos busnes llawn y byddai'r costau hyn yn dod i gyfanswm o £2.58 miliwn ac yn tybio y byddai sefydliadau'n dod o hyd i'r adnoddau hyn o'u cyllidebau presennol. Er bod costau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau lleol, erbyn diwedd 2021-22, bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd wedi cael cyllid o £13.13 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu a chyflwyno. Fel y nodwyd ym **mharagraff 2.24**, mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi pwysleisio wrthym fod y gweithgaredd y mae'r cyllid hwn yn ei gefnogi yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas yr achos busnes gwreiddiol, gan gynnwys gwaith ehangach i drawsnewid gwasanaethau sy'n gysylltiedig â WCCIS.

2.40 Mae llawer o'r arian hwn wedi dod o'r Gronfa Gofal Integredig (**Ffigur 6**). Dosberthir yr arian hwn drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol[20] a bydd yn parhau hyd at ddiwedd 2020-21. Yn gyffredinol, bydd cyfanswm y cymorth o'r Gronfa Gofal Integredig yn £8.72 miliwn.

20 Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles y boblogaeth a sut y caiff gwasanaethau iechyd a gofal eu darparu.

**Ffigur 6: Dosbarthiad rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi rhoi WCCIS ar waith a thrawsnewid gwasanaethau cysylltiedig, rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2021**




Nodiadau: Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf oedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg gynt. Ymgorfforodd ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019 a fu'n rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin cyn hynny. Gelwir Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin bellach yn Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.41 I ddechrau, cafodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyraniad ar sail fformiwla. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol o'r farn bod tua £4.50 miliwn o'r cyllid hwn rhwng 2016-17 a 2018-19 wedi'i ddefnyddio'n bennaf i gefnogi gwaith cynllunio sy'n ymwneud â gweithredu WCCIS yn lleol.

2.42 Ers dechrau 2019-20, mae arian wedi'i ddyrannu ar sail 'cynnig' a chyda mwy o ffocws ar drawsnewid gwasanaethau cysylltiedig. Gofynnodd rhai rhanbarthau am gynnydd ar eu dyraniadau blaenorol. Creodd hyn ddiffyg o £0.21 miliwn yn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y ddwy flynedd 2019-2021. Cafodd y gwahaniaeth ei dalu o Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru yn 2019-20 ac mae'n cael ei dalu o gronfeydd canolog wrth gefn Llywodraeth Cymru yn 2020-21.

2.43 Yn 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru £0.05 miliwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ychwanegol at ddyraniad y Gronfa Gofal Integredig a ddosbarthwyd drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Daeth hyn o gyllideb gwasanaethau cymdeithasol ar wahân gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cwmpasu hyfforddiant, staffio, meddalwedd a chymorth technegol ychwanegol. Llofnododd y Cyngor orchymyn defnyddio ym mis Ebrill 2019 ac mae yn y cyfnod o roi'r system ar waith ar hyn o bryd.

2.44 Nododd yr achos busnes llawn hefyd y gallai fod gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyllidebau refeniw presennol ar gyfer systemau TG y byddai WCCIS yn eu disodli. Fodd bynnag, roedd rhai awdurdodau lleol wedi datblygu systemau 'mewnol' yn hytrach na chontractio gyda darparwyr allanol.

2.45 Gofynnodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol am £0.20 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru rhwng 2019-20 a 2021-22 i gefnogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i weithredu WCCIS a £0.30 miliwn i gefnogi Cyngor Sir Fynwy[21]. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r cais am gyllid, penderfynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot beidio â chomisiynu WCCIS ac ni chymerodd yr arian a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaed cais i ryddhau'r arian hwn i gefnogi gweithredu WCCIS ar draws rhanbarth ehangach Gorllewin Morgannwg, ond gwrthododd Llywodraeth Cymru hyn. Nid yw Cyngor Sir Fynwy wedi llofnodi gorchymyn defnyddio eto ac mae'n dal i drafod â CareWorks. Ar hyn o bryd, nid oes dyddiad mynd yn fyw wedi'i gytuno.

2.46 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu £4.06 miliwn o'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol yn uniongyrchol i fyrddau iechyd i gyflymu'r broses weithredu rhwng 2019-20 a 2021-22[22]. Bydd y cyllid hwn yn mynd i'r afael â:

- heriau ariannol mewn rhai byrddau iechyd lle mae gwasanaethau iechyd cymunedol yn dal i weithredu systemau papur i raddau helaeth ac nid oes cyllidebau refeniw ar gyfer systemau TG; ac
- ymgorffori ffyrdd newydd o weithio i weithwyr iechyd proffesiynol.

21 Gofynnodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol hefyd am arian ychwanegol rhwng 2019-20 a 2021-22 i gefnogi Cyngor Sir y Fflint (£0.04 miliwn) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (£0.46 miliwn). Gwrthododd Llywodraeth Cymru y cais hwn gan fod y cynghorau eisoes yn talu am systemau presennol.

22 Arian i gyrff lleol yw hwn, yn ychwanegol at gymorth Tîm y Rhaglen Genedlaethol o'r un gronfa (**paragraff 2.35**).

**Nid ydym wedi gallu dod o hyd i amcangyfrif cyffredinol dibynadwy o gostau gweithredu lleol a dalwyd o gyllidebau sefydliadau eu hunain, er ei bod yn amlwg bod y rhain yn mynd i filiynau o bunnoedd**

2.47 Nid yw Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi casglu gwybodaeth am gostau gweithredu lleol cyffredinol, gan gynnwys cyfraniadau o gyllidebau lleol. Ni chafwyd unrhyw ganllawiau penodol ynghylch sut y dylid ystyried y costau hyn, ac unrhyw arbedion o'u cymharu â systemau blaenorol neu drwy beidio â gorfod mynd drwy brosesau caffael ar wahân, fel rhan o ddatblygu achosion busnes lleol. Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi nodi ei fod wedi darparu cyngor ad hoc ac wedi cefnogi rhannu gwybodaeth am ddatblygu achosion busnes lleol. Mae hefyd wedi pwysleisio mai'r sefydliadau lleol sy'n atebol am gostau, risg a manteision lleol manwl.

2.48 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd sydd wedi mynd yn fyw neu wedi llofnodi gorchmynion defnyddio a allent ddarparu ffigurau ar gostau gweithredu lleol a dalwyd o'u cyllidebau eu hunain. Nid oedd rhai'n gallu gwneud hynny.

2.49 Hyd yn oed pan adroddwyd ffigurau, roedd sefydliadau wedi defnyddio dulliau gwahanol neu'n methu â gwahaniaethu costau penodol WCCIS o waith prosiect ehangach. Roedd yn anodd felly nodi amcangyfrif cyffredinol dilys. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau'n cynnwys byrddau iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan a nododd ffigurau eithaf gwahanol o £0.41 miliwn a £3.16 miliwn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020[23]. Fel y nodwyd ym **mharagraffau 2.4 i 2.5**, nid yw'r un o'r ddau fwrdd iechyd wedi mynd yn fyw eto er gwaethaf llofnodi gorchmynion defnyddio.

2.50 Roedd rhai sefydliadau nad ydynt eto wedi llofnodi gorchmynion defnyddio hefyd yn gallu darparu amcangyfrifon blaengar. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, wedi amcangyfrif y byddai gweithredu'n costio £3.9 miliwn, gan gynnwys gwaith i ddatblygu swyddogaethau sy'n cyfateb i'w drefniadau presennol. Byddai costau cynnal a chadw parhaus hefyd yn ddrutach o lawer.

23 Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys costau staff a gyflogir yn uniongyrchol i gefnogi gweithredu ond nid ydynt yn cynnwys gwerth amser staff ar gyfer eraill oedd hefyd yn cynorthwyo. Yn yr un modd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi nodi nad yw ei amcangyfrif yn rhoi cyfrif llawn am yr holl amser staff sydd wedi'i neilltuo.

2.51 Hyd at ddiwedd mis Mehefin 2020, roedd y sefydliadau hynny sydd wedi symud ymlaen o ran gweithredu i'r pwynt o dalu taliadau gwasanaeth wedi talu cyfanswm o £2.56 miliwn i CareWorks. Nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn wariant newydd o'i gymharu â chost systemau blaenorol. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'n gwireddu arbedion cymedrol o gymharu â chost systemau blaenorol (**paragraff 2.12**). Mae'r sefyllfa o gyflwyno yn golygu bod incwm CareWorks o daliadau gwasanaeth wedi bod yn sylweddol is na'r disgwyl ar y dechrau.

2.52 Mae costau parhaus eraill i sefydliadau sydd wedi mynd yn fyw, ond efallai fod hynny hefyd wedi'i wario o'r blaen i gefnogi systemau rhagflaenol. Roedd yr achos busnes llawn yn cynnwys amcangyfrif o £6.64 miliwn ar gyfer yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i ariannu costau cymorth WCCIS lleol parhaus dros gyfnod o 13 mlynedd.

# Rheoli'r rhaglen

03

# Er bod camau wedi'u cymryd ar wahanol adegau i adolygu a cheisio cyflymu'r broses o gyflawni'r rhaglen, mae rhai materion allweddol wedi cymryd amser hir i'w datrys neu heb gael eu datrys yn llawn o hyd

## Roedd y rhaglen yn araf i ymateb i faterion a nodwyd gan Adolygiad Gateway ym mis Tachwedd 2017, gan gynnwys oedi wrth lenwi dwy rôl bwysig i Dîm y Rhaglen Genedlaethol

3.1 Fel y nodwyd ym **mharagraff 2.7**, yn ein barn ni roedd rhai o'r amcangyfrifon cynnar ynghylch cyflymder y cyflwyno yn afrealistig. Fodd bynnag, mewn rhaglen o'r math hwn mae hefyd yn anochel y bydd angen ymateb i faterion wrth iddynt godi a pharhau i adolygu'r trefniadau cyflawni.

3.2 Ym mis Tachwedd 2017, comisiynodd Uwch Berchnogion Cyfrifol y rhaglen 'Adolygiad Gateway' a oedd yn edrych ar y rhagolygon ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus. At ddibenion yr adolygiad, diffiniwyd cyflawni llwyddiannus yn gul fel un a oedd yn cyflawni'r platfform technegol o fewn cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru a'i fod yn cael ei ddefnyddio fel system fyw sefydlog gan fàs critigol [amhenodol] o awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

3.3 Rhoddodd yr adolygiad sgôr 'oren' i'r rhaglen. Canfu'r adolygiad fod rhai problemau arwyddocaol yn wynebu'r rhaglen ond bod y materion hyn yn cael sylw ac, ar y pryd, roedd yn ymddangos y gellid eu datrys.

3.4 Mae Rhannau 1 a 2 o'r adroddiad hwn eisoes wedi disgrifio'r camau amrywiol a gymerwyd cyn ac ers yr Adolygiad Gateway, gan gynnwys newidiadau cytundebol a phenderfyniadau ynghylch cyllid ychwanegol a chymorth gweithredu. Serch hynny, mae llawer o'r materion a nodwyd yn ystod oes y rhaglen wedi cymryd amser hir i'w datrys neu heb gael eu datrys yn llawn eto.

3.5 Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol o'r farn bod wyth o naw argymhelliad yr Adolygiad Gateway bellach wedi'u cwblhau, er bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu mewn ymateb wedi'u hymestyn y tu hwnt i'r terfyn amser disgwyliedig, ddiwedd gwanwyn 2018. Gan ei bod wedi cymryd tua blwyddyn i Lywodraeth Cymru gytuno ar gyllid, bu oedi wrth lenwi dwy swydd newydd i gefnogi gweithredu. Canfu Adolygiad Gateway fod staff y rhaglen yn cael eu gorymestyn a nodwyd 'gwendid sylweddol' mewn cyfathrebu rhwng Tîm y Rhaglen Genedlaethol a sefydliadau eraill. Ym mis Rhagfyr 2018, daeth Cyfarwyddwr Rhaglen newydd i'r swydd i oruchwylio llywodraethu a gweithgaredd y rhaglen. O fis Mehefin 2019, dechreuodd Arweinydd Cyfathrebu weithio ar sail ymgynghorol.

3.6 Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Fframwaith Manteision (**paragraff 3.18**) ac er bod Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn ystyried bod yr argymhelliad gwreiddiol yn gyflawn, mae angen gwneud rhagor o waith ar y map ar gyfer y swyddogaethau sy'n weddill (**paragraff 2.18**). Mae sefydlu trefniadau llywodraethu diwygiedig hefyd wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

## Bwriad newidiadau diweddar i strwythurau llywodraethu rhaglenni yw cefnogi dull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig, gan gynnwys cyflymu safonau data cenedlaethol sy'n allweddol i wireddu rhai o fanteision WCCIS


3.7 Yn dilyn diwygiadau i strwythurau gwneud penderfyniadau ac uwchgyfeirio ym mis Mai 2019, ym mis Medi 2019, adnewyddodd Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS ei Gylch Gorchwyl i geisio cynnig mwy o eglurder ynghylch ble mae'n arfer awdurdod gwneud penderfyniadau. O dan y Cylch Gorchwyl presennol, mae gan y Bwrdd Arweinyddiaeth 'gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y gallu digidol yn cael ei gyflawni i gefnogi trawsnewid gwasanaethau a chefnogi ac annog eu gweithrediad ledled Cymru'.

3.8 Mae'r cyfrifoldeb am weithredu WCCIS yn eang ac mae'n cynnwys y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn ogystal â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio'r system ond nid yw wedi dewis gwneud hynny eto. Ar hyn o bryd mae'n dibynnu ar gynyddu'r nifer sy'n dewis defnyddio'r system drwy gyfrwng yr arian ychwanegol y mae'n ei ddarparu (**paragraff 2.46)**. Er ei fod hefyd wedi rhoi rhywfaint o gymorth ariannol i awdurdodau lleol, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau tebyg i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio'r system.

3.9 Wrth ddarparu cyllid ychwanegol o'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol, nododd Llywodraeth Cymru yn glir ei bod yn disgwyl i Dîm y Rhaglen Genedlaethol wneud sawl peth erbyn mis Chwefror 2020, gan gynnwys datblygu cynllun ac amserlen gyflawni fanwl. Ni chafodd yr un o'r terfynau amser eu bodloni. Ym mis Mawrth 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Dîm y Rhaglen Genedlaethol fod cyllid parhaus yn dibynnu ar roi'r camau gofynnol ar waith neu gytuno ar drefniadau amgen. Mae'r camau gofynnol wedi'u cyflawni ers hynny.

3.10 Mae **Ffigur 7** yn nodi trefniadau llywodraethu lefel uchel presennol y rhaglen fel y cytunwyd o fis Ionawr 2020. Yn ogystal â rolau newydd Tîm y Rhaglen Genedlaethol a ddisgrifir uchod, mae'r strwythurau hyn wedi esblygu dros oes y rhaglen, gyda grwpiau newydd wedi'u sefydlu'n ddiweddar i geisio mynd i'r afael â rhai o'r meysydd sy'n parhau i beri pryder. Mae'r trefniadau llywodraethu bellach yn cynnwys Grŵp diwygiedig ar gyfer Cyflawni'r Rhaglen gyda chynrychiolaeth ranbarthol i oruchwylio a chydlynu gweithgareddau sy'n gofyn am ddull gweithredu cenedlaethol a strategol neu a fyddai'n elwa ohono. Ar adeg ein gwaith maes roedd yn rhy gynnar i farnu effaith y trefniadau diwygiedig hyn, er bod Tîm y Rhaglen Genedlaethol o'r farn eu bod wedi bod yn amhrisiadwy wrth ymateb i COVID-19.

**Ffigur 7: Strwythur llywodraethu lefel uchel ar gyfer Rhaglen WCCIS, o fis Ionawr 2020**




Sylwer: Mae **Atodiad 2** yn rhoi rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau a rhannau eraill o'r strwythurau llywodraethu, gan gynnwys tri 'grŵp sicrwydd a chynghori cenedlaethol' pellach.

Ffynhonnell: Tîm y Rhaglen Genedlaethol

3.11 Un nod allweddol yw cyflymu safonau data cenedlaethol fel sail ar gyfer fframwaith adrodd cenedlaethol mewn gwasanaethau plant, iechyd meddwl, nyrsio cymunedol, gofal cymdeithasol a therapïau[24]. Mae ymarferwyr yn defnyddio ffurflenni electronig i asesu anghenion cleifion. Mae sefydliadau unigol wedi datblygu eu ffurflenni eu hunain, yn seiliedig ar y wybodaeth y maent am adrodd arni a'u diffiniadau data eu hunain. Mae cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru a gadarnhawyd ym mis Rhagfyr 2019 yn golygu bod Tîm y Rhaglen Genedlaethol bellach yn gallu cefnogi gwybodegyddion clinigol i weithio mewn pedwar o'r pum maes hyn. Fodd bynnag:

a mae gwaith ar draws y pum maes ar wahanol gamau datblygu. Nid yw sicrhau consensws ynghylch cynnwys ffurflenni cenedlaethol yn syml, yn enwedig gan fod angen rhywfaint o gonsensws ynghylch arferion gwaith. Er enghraifft, cymerodd tua thair blynedd i ddatblygu asesiad risg maeth safonol i Gymru gyfan i'w ddefnyddio mewn lleoliadau cleifion mewnol i oedolion. Bu'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu set ddata graidd ar gyfer iechyd meddwl ers 2012[25]. Mae hyn bellach wedi'i drefnu i'w gyflawni erbyn diwedd 2022.

b er mwyn i unrhyw ffurflenni a ddatblygir fod yn genedlaethol, byddai'n rhaid i sefydliadau nad ydynt yn defnyddio WCCIS hefyd gytuno i ddefnyddio'r ffurflenni, naill ai fel ffurflenni papur neu newid eu systemau TG presennol.

c nid yw'n glir sut y gellid gorfodi awdurdodau lleol i ddefnyddio'r ffurflenni hyn.

3.12 Bydd Bwrdd Rheoli Gwybodaeth newydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r safonau data cenedlaethol a bydd hefyd yn anelu at fynd i'r afael â'r materion hirsefydlog sy'n ymwneud â gofynion y Gymraeg a datblygu cofnod integredig (**paragraffau 2.15 i 2.17**). Bydd Grŵp Cofnodion Integredig yn cysylltu â'r Bwrdd, gyda'i gylch gorchwyl i'w gytuno ym mis Medi 2020.

24 Mae therapïau'n cynnwys gwasanaethau fel podiatreg, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, dieteteg, therapi lleferydd ac iaith a therapi celf.

25 Llywodraeth Cymru, Law yn **Llaw at Iechyd Meddwl - Cynllun Cyflawni**, Hydref 2012.

## Mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i ddatblygu fframwaith ar gyfer adrodd ar y manteision a wireddir o weithredu WCCIS

3.13 Gellid gweld manteision posibl gweithredu WCCIS ar unwaith – er enghraifft, mae gweithredu'n cynnwys gweld rhai cofnodion iechyd yn y gymuned yn symud i system electronig – ac yn y tymor hwy, mae'n cefnogi trawsnewid gwasanaethau ehangach. Wrth fynegi rhai o'r manteision posibl (**Ffigur 8**), nododd yr achos busnes llawn yr angen am 'strategaeth fanteision', gyda rolau wedi'u neilltuo'n glir. Roedd yn ei gwneud yn glir mai sefydliadau lleol sy'n gyfrifol am gasglu tystiolaeth am fanteision. Roedd y ffocws a awgrymwyd ar gyfer y Bwrdd Arweinyddiaeth, a nodwyd yn ei gylch gorchwyl, ar ddwyn y dystiolaeth honno ynghyd a hyrwyddo'r prif negeseuon

**Figure 8: Manteision posibl gweithredu WCCIS**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru yn seiliedig ar achos busnes llawn WCCIS

3.14 Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd ar fanteision gweithredu WCCIS wedi bod yn destun trafodaeth ac adolygiad o'r cychwyn cyntaf (**Ffigur 9**). Er gwaethaf rhai datblygiadau cynnar, roedd Adolygiad Gateway Tachwedd 2017 yn dal i alw am gynllun gwireddu manteision. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i wahaniaethu rhwng manteision busnes uniongyrchol y dechnoleg ei hun a'r rhai sy'n deillio o newid busnes ehangach. Argymhellodd yr adolygiad y dylid rhoi blaenoriaeth i gasglu tystiolaeth o gyflawni newid busnes ehangach drwy gyflwyno'r system. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu fframwaith adrodd addas.

**Ffigur 9: Llinell amser datblygiadau fframwaith adrodd ar fanteision**

### Mawrth 2015

Llythyr dyfarnu cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn gofyn am gynllun gwireddu manteision manwl.

Achos Busnes Llawn yn pwysleisio'r angen am strategaeth manteision.

### Hydref 2016

Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn cynhyrchu pecyn cymorth cynllunio gwireddu

### Medi 2017

Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn cynhyrchu strategaeth fanteision ac yn cynnal digwyddiadau i gasglu tystiolaeth o fanteision.

### Tachwedd 2017

Adroddiad Adolygiad Gateway yn atgyfnerthu'r angen am gynllun gwireddu buddiannau.

### Medi 2018

Y grŵp Newid Busnes yn comisiynu adolygiad o'r gofrestr manteision cenedlaethol. Cynnydd cychwynnol wedi'i wneud ond bu seibiant yn gynnar yn 2019

### Ebril 2019

Mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar ganlyniadau gweithredu penodol WCCIS sy'n cael eu cyflawni drwy gymorth y Gronfa Gofal Integredig.

### Hydref 2019

Y gwaith o adolygu'r rôl a'r dulliau ar gyfer fframwaith manteision cenedlaethol wedi ailgychwyn.

### Rhagfyr 2019

Dyfarniad Llywodraeth Cymru o gymorth y Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol sy'n gofyn am adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â gwireddu manteision ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

### Ionawr 2020

Tîm y Rhaglen Genedlaethol yn dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol i drafod datblygu fframwaith gwireddu manteision. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen.

3.15 Tan fis Mawrth 2019, nid oedd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar y canlyniadau penodol a oedd yn cael eu cyflawni gyda'r arian a gawsant ar gyfer gweithredu WCCIS o'r Gronfa Gofal Integredig (**paragraffau 2.40 i 2.42**). O fis Ebrill 2019, dyrannwyd cyllid ar sail 'cynnig' gan ganolbwyntio ar wireddu manteision, er nad yw'r trefniadau adrodd yn cyd-fynd â'r canlyniadau a fwriadwyd sy'n cael eu hamlinellu yn yr achos busnes llawn dros weithredu WCCIS.

3.16 Yn ystod ein gwaith, gofynnwyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd am unrhyw dystiolaeth o wireddu manteision lleol neu ranbarthol. Ychydig o adborth a gawsom. Rhannodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol dystiolaeth a luniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn adlewyrchiad o'r gwersi a ddysgwyd. Yn haf 2019, cynhaliodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys arolwg o'i ddefnyddwyr er bod y gyfradd ymateb yn isel a'r adborth yn gymysg. Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Powys wedi cynnal arolwg o ganfyddiadau defnyddwyr o berfformiad y system, yn ei adrannau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oeddem wedi gweld y set lawn o ganlyniadau'r arolwg.

3.17 Ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i ni ar hyn o bryd fod WCCIS yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu manteision ehangach i drawsnewid gwasanaethau. Yn bennaf, y rheswm am hyn yw nad yw'r system wedi'i chyflwyno'n llawnach eto. Fel y nodwyd ym **mharagraff 2.10**, hyd yn oed pan fo'r system wedi'i gweithredu, mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae'n cael ei defnyddio. Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â sut mae'r system yn gweithio (**paragraff 2.14**) a safoni (**paragraff 2.35**) hefyd yn gweithredu fel rhwystrau i weithio integredig.

3.18 Ym mis Ionawr 2020, daeth Tîm y Rhaglen Genedlaethol ynghyd â chynrychiolwyr rhanbarthol i drafod gwaith hyd yma ar ddulliau o reoli ac adrodd ar fanteision. Dywedodd Tîm y Rhaglen Genedlaethol fod mentrau yn y maes hwn yn amrywio'n fawr rhwng rhanbarthau a sefydliadau lleol.

3.19 Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol bellach yn ceisio gweithio'n effeithiol gyda grwpiau Rhanbarthol WCCIS i ddatblygu fframwaith manteision a all gefnogi a llywio datblygiadau lleol a rhanbarthol a darparu adroddiadau cenedlaethol manylach a strwythuredig. Ystyrir bod Grŵp Newid Busnes cenedlaethol WCCIS yn fforwm allweddol i gefnogi'r gwaith hwn. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith manteision cenedlaethol sy'n cysylltu'n effeithiol â dulliau lleol a rhanbarthol ac yn eu cefnogi.

3.20 Mae cymeradwyaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru i gymorth grant gan y Gronfa Blaenoriaethau Digidol a Buddsoddi yn dod â gofynion gwerthuso penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Dîm y Rhaglen Genedlaethol lunio adroddiad blynyddol cynhwysfawr ar gynnydd y rhaglen, gan ddechrau gyda'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020. Yr oedd bwriad yr adroddiad cyntaf hwnnw fod ar gael erbyn diwedd Ebrill 2020, ond gohiriwyd ei gwblhau yn sgil effaith COVID-19.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

2 Gweithredu WCCIS: rolau a chyfrifoldebau

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Dull archwilio

Buom yn ystyried a yw partneriaid allweddol wedi rhoi'r trefniadau priodol ar waith i weithredu WCCIS a sicrhau'r manteision a ragwelir.

Buom yn canolbwyntio ar p'un a yw'r gofynion swyddogaethol a'r manteision a fwriadwyd yn cael eu cyflawni o fewn y costau a'r amserlenni a ragwelwyd. Ystyriwyd y model cytundebol gennym hefyd a'r ffordd y mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r system yn cael ei ariannu. Nid ydym wedi edrych yn fanwl ar y trefniadau y mae sefydliadau unigol wedi'u rhoi ar waith i gefnogi gweithredu lleol nac ar y rhaglenni gwaith rhanbarthol sydd â'r bwriad o gefnogi trawsnewid gwasanaethau ehangach sy'n gysylltiedig â WCCIS.

Cadarnhawyd cwmpas ein gwaith i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS ym mis Hydref 2019 a chasglwyd ac adolygwyd y rhan fwyaf o'n tystiolaeth rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020.

Rhoddwyd adborth gennym i Lywodraeth Cymru ac aelodau Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS ym mis Chwefror 2020 ynghylch y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg.

Cyn ei gyhoeddi, gwahoddwyd sylwadau ar ein hadroddiad drafft, neu ddarnau perthnasol, gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS, cyflenwr WCCIS – CareWorks, a sefydliadau eraill a enwir. Mae ein hadroddiad yn adlewyrchu sefyllfa'r rhaglen a'r dystiolaeth sydd ar gael i ni fel y mae ar ddiwedd mis Awst 2020.

# Dulliau archwilio

### Adolygu dogfennau

Buom yn adolygu ystod eang o ddogfennau sy'n ymwneud â WCCIS gan gynnwys dogfennau cytundebol, achosion busnes, papurau sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu'r Rhaglen Genedlaethol, sesiynau briffio Gweinidogol ac adroddiad Adolygiad Gateway 2017.

Yn y cyd-destun ehangach, ystyriwyd hefyd faterion perthnasol a drafodwyd mewn adroddiadau eraill yn ymwneud â systemau gwybodaeth yn GIG Cymru, gan gynnwys:

- Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru**, Ionawr 2018
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Systemau Gwybodeg GIG Cymru**, Hydref 2018
- Channel 3 Consulting (ar gyfer Llywodraeth Cymru), **Digital Architecture Review – Final Report**, Mawrth 2019
- Partneriaethau Lleol, **Welsh Government Review: Future Structure and Governance for Health Informatics in Wales**, Mawrth 2019

### Cyfweliadau

Cyfwelwyd â swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a llywodraeth leol a chawsom gyfarfod â grŵp Cyfarwyddwyr Gwybodeg Cynorthwyol y GIG. Cawsom drafodaethau gyda chadeiryddion grwpiau partneriaeth rhanbarthol WCCIS a chyda chydgysylltwyr rhanbarthol, lle mae strwythurau rhanbarthol yn bodoli.

Cawsom gyfarfod hefyd â CareWorks, y cyflenwr dan gontract ar gyfer WCCIS, a chyda'i riant gwmni newydd Advanced.

### Dadansoddi costau a manteision

Dadansoddwyd sawl ffynhonnell ddata wahanol i gael darlun cyffredinol o wariant ar weithredu WCCIS.

Casglwyd gwybodaeth gennym hefyd gan y 22 awdurdod lleol a saith bwrdd iechyd am wariant ar WCCIS a threfniadau ar gyfer mesur ac adrodd ar fanteision y system.

### Ymweliadau

Ymwelwyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gyfarfod â staff sy'n defnyddio WCCIS.

# 2 Gweithredu WCCIS: rolau a chyfrifoldebau

Mae **Ffigur 10** yn rhoi trosolwg o rai o rolau a chyfrifoldebau allweddol y rhai sy'n arwain ac yn rheoli'r rhaglen. Mae **Ffigur 11** yn crynhoi'r trefniant llywodraethu presennol ar gyfer rhaglen WCCIS ar lefel genedlaethol. Mae agweddau ar y rolau a'r cyfrifoldebau a'r trefniadau llywodraethu wedi esblygu dros amser i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebwyd.

Mae Tîm y Rhaglen Genedlaethol wedi pwysleisio wrthym mai rôl Rhaglen Genedlaethol WCCIS yw sicrhau y cyflawnir gallu digidol a all gefnogi trawsnewid gwasanaethau lleol a rhanbarthol a chefnogi ac annog ei weithredu.

Er bod ganddi rôl gydgysylltu gyffredinol, nid oes gan y Rhaglen Genedlaethol awdurdod nac atebolrwydd uniongyrchol ar gyfer pob agwedd ar y dirwedd gymhleth a'r cymysgedd o randdeiliaid. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl i gysoni a chefnogi'r defnydd o'r system gan sefydliadau lleol fel rhan o nodau ehangach strategaeth a chynlluniau trawsnewid rhanbarthol. Mae gan sefydliadau lleol eu llinellau atebolrwydd unigol eu hunain o ran eu buddsoddiad mewn gweithredu lleol.

Yn ogystal â'r strwythurau lefel uchel a ddisgrifir yma, mae amrywiaeth o grwpiau eraill wedi'u sefydlu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i gefnogi gweithredu WCCIS a gwireddu manteision. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Newid Busnes sy'n adrodd i Grŵp Cyflawni'r Rhaglen ac sy'n goruchwylio gwaith grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd ym mis Chwefror 2020 i ddatblygu fframwaith manteision cenedlaethol.

Mae aelodaeth graidd Bwrdd Arweinyddiaeth WCCIS yn cynnwys yr Uwch Berchnogion Cyfrifol, Cyfarwyddwr NWIS, Cyfarwyddwr Rhaglen WCCIS a chynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru. Mae'r bwrdd llawn hefyd yn cynnwys arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru, cadeiryddion y tri bwrdd cenedlaethol, Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu WCCIS ac uwch gynrychiolydd o CareWorks, yn ôl yr angen. Mae aelodaeth grwpiau eraill yn amrywio, ond maent yn denu ystod eang o gynrychiolwyr ar gyfer sefydliadau/sectorau a grwpiau proffesiynol penodol.

**Ffigur 10: Rolau a chyfrifoldebau allweddol yn rhaglen WCCIS**

| Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Uwch Berchnogion Cyfrifol (SROs) | Cyd-gadeiryddion y Bwrdd Arweinyddiaeth. Un ohonynt yw Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r llall yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Rôl yr SROs yw sicrhau bod gwaith yn cael ei lywodraethu'n effeithiol a'i fod yn cyflawni amcanion y rhaglen. |
| Cyfarwyddwr Rhaglen WCCIS | Yn atebol i'r SROs ac yn cadeirio Grŵp Cyflawni'r Rhaglen. Mae ganddo rôl arweiniol o ran meithrin a chynnal cydberthnasau â rhanddeiliaid, ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byrddau Rhanbarthol WCCIS, a grwpiau eraill yn ôl y gofyn. |
| Rheolwr Rhaglen WCCIS | Cydgysylltu, rheoli ac adrodd ar y rhaglen o ddydd i ddydd. |
| Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu WCCIS | Yn gyfrifol am strategaeth a chynllunio cyfathrebu ac ymgysylltu cenedlaethol. |
| Cymorth NWIS | NWIS sy'n cynnal y rhaglen genedlaethol bwrpasol, gan gynnwys Cyfarwyddwr Rhaglen WCCIS ac Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae staff NWIS yn darparu cymorth gweithredol ychwanegol i'r rhaglen ac mae NWIS yn rheoli'r canolfannau data sy'n gartref i galedwedd CareWorks. |

**Ffigur 11: Grwpiau llywodraethu allweddol yn rhaglen WCCIS**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad a strategaeth genedlaethol** | Bwrdd Arweinyddiaeth | Goruchwylio aliniad WCCIS â pholisi a strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru drwy'r cyd Uwch Berchnogion cyfrifol. |
| **Cynllunio a chydgysylltu, cyfathrebu ac ymgysylltu** | Grŵp Cyflawni'r Rhaglen | Cynllunio a chydgysylltu cenedlaethol. Atebol i'r Bwrdd Arweinyddiaeth. Yn gyfrifol am gydlynu gwaith y tri bwrdd cenedlaethol ar draws y saith rhanbarth. |
| **Byrddau Rheoli Cenedlaethol** | Bwrdd Rheoli Contractau a Masnachol | Yn gyfrifol am gyflawni'r gofynion cytundebol.<br>Yn darparu arbenigedd ac arweiniad masnachol i grwpiau eraill. |
| | Bwrdd Rheoli Gwybodaeth | Gweithio gyda mentrau cenedlaethol eraill i ddatblygu a sicrhau safonau gwybodaeth a data cenedlaethol, a gofynion adrodd, ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. |
| | Bwrdd Rheoli Gwasanaethau | Sicrhau bod WCCIS yn cael ei weithredu yn unol â'r Cytundeb Gwasanaethau Meistr a Gorchymyn Defnyddio Cymru Gyfan. |
| **Grwpiau sicrwydd a chynghori cenedlaethol** | Panel Ymarfer/ Sicrwydd Busnes | Grŵp cynghori ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.<br>Mae'n rhoi sicrwydd bod cynlluniau a gweithgareddau rhaglenni yn cael eu harwain gan fanteision yn gyson. |
| | Panel Cynghori ar Lywodraethu Gwybodaeth | Darparu cyngor, arweiniad a sicrhau ymgynghori priodol ac amserol yn ôl y gofyn. |
| | Grŵp Cynghori ar Newid | Cymeradwyo, gwrthod neu ohirio unrhyw gais am newid ar draws pob sefydliad sy'n defnyddio WCCIS. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru